



Strategaeth
2020 - 2029

Tudalen cynnwys

- 1 Ein gweledigaeth, cenhadaeth
ac ymrwymiad i gydraddoldeb
- 2 Ein dull
- 3 Gwneud i newid ddigwydd
 - Byddwn yn ariannu gwaith da
 - Byddwn yn darganfod y pethau sy'n gweithio
 - Byddwn yn gweithio dros newid



Cyflwyno'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid

Elusen gyda gwaddol o £200m yw'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid, gyda chenhadaeth hynod bwysig. Bodolwn i atal plant a phobl ifanc rhag dod yn rhan o droseddu treisgar.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn trais difrifol. Mae nifer y troseddau gan blant gyda chyllyll wedi cynyddu. Wrth i droseddu treisgar dyfu, felly hefyd nifer y plant a'r bobl ifanc a gofnodir fel dioddefwyr.

Mae hyn yn drasiedi sy'n gwbl ddinistriol i unigolion, teuluoedd a chymunedau. Ond nid yw'n anochel – gallwn ei atal. Fel cymdeithas mae'n ddyletswydd arnom warchod plant a phobl ifanc rhag cael eu hecsbloetio a'u hudo i ymddwyn mewn ffordd niweidiol.

Mae'r **Gronfa Gwaddol Ieuenctid** wedi ymrwymo i newid pethau i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Yn aml iawn mae pobl sy'n poeni am bobl ifanc yn teimlo eu bod yn gwybod beth sydd ei angen i wella pethau, ond does dim byd byth yn newid. Pam felly? Mae tri rheswm yn bennaf.

Yn rhannol oherwydd nad yw'n glir – yn enwedig i rai gyda phwer a dylanwad – beth yn union sy'n gweithio. Dyna pam y bwriadwn ddefnyddio adnoddau i ariannu a gwerthuso gwaith addawol sy'n ymyrryd yn gynnar ym mywydau plant a phobl ifanc, i ddangos beth sydd a sydd ddim yn gweithio.

Yn rhannol oherwydd nad yw'n hawdd cael gafael ar wybodaeth am blant a phobl ifanc, a sut orau i'w helpu. Dyna pam y bwriadwn wneud ein gorau glas i sicrhau bod y wybodaeth am beth sy'n gweithio orau'n hawdd i bawb ei chanfod a'i deall. Ond nid mater o wybod beth sy'n gweithio'n unig yw hyn. Bwriadwn

hefyd weithio i ennill dealltwriaeth ddofn o fywydau plant a phobl ifanc yn y DU.

Hefyd yn rhannol, oherwydd na fu gennym rwydweithiau digon cryf – sy'n torri ar draws y sectorau ieuenctid, addysg, iechyd meddwl, gofal cymdeithasol plant, a'r heddlu – a chydweithio gyda'n gilydd i newid pethau ar sail tystiolaeth a dealltwriaeth ddofn o fywydau plant a phobl ifanc. Dyna pam y bwriadwn weithio'n galed i greu'r rhwydweithiau a'r cysylltiadau hyn, fel na fyddwn yn gwneud dim ond creu adroddiadau sy'n eistedd ar silff yn rhywle. Byddwn yn gweithio gyda phawb sy'n poeni am blant a phobl ifanc i greu consensws am y pethau sydd angen iddynt newid.

Yn hyn i gyd, ni fyddwn byth ychwaith yn anghofio pam ein bod yma – i sicrhau bod plant a phobl ifanc ar draws y wlad yn gallu byw bywydau sy'n rhydd o droseddu treisgar. Gwyddom y gallwn, gyda'n gilydd, wneud pethau'n well.

Dyfyniadau:

Crest Advisory. *Serious violence in context: Understanding the scale and nature of serious violence.*

Youth Justice Board. *Youth justice statistics: 2018 to 2019.*

NHS Digital. *Hospital admitted patient care statistics (various years). Admissions where the external cause was assault with a sharp object (code X994).*





Ein gweledigaeth, cenhadaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb

Ein gweledigaeth

Byd lle nad oes yr un plentyn na pherson ifanc yn dod yn rhan o droseddu treisgar.

Ein cenhadaeth

Rydyn ni yma i atal plant a phobl ifanc rhag dod yn rhan o droseddu treisgar. Gwnawn hyn drwy ddarganfod beth sy'n gweithio a sefydlu mudiad i roi'r wybodaeth yma ar waith.

Ymrwymiad i gydraddoldeb

Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd ymylol – gan gynnwys plant a phobl ifanc croenliw a phlant gyda phrofiad o'r system gofal – wedi eu gorgynrychioli'n sylweddol yn y System Cyfiawnder Ieuenctid. Os na weithiwn ochr yn ochr â'n partneriaid i ddeall a mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn, ni allwn gyflawni ein cenhadaeth. Rydyn ni'n benderfynol o fod yn rhan o'r ateb a bwriadwn wneud ein gorau i sicrhau bod ein staff, partneriaethau, llywodraethu a'n cyllid yn cyrraedd a chynrychioli'r plant yr ydyn ni yma i'w gwasanaethu.

Ein dull

Elusen gyda gwaddol o £200m dros ddeng mlynedd yw'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid, sy'n canolbwyntio ar gadw pobl ifanc yn ddiogel rhag troseddu.

Gwyddom os ydyn ni am wneud gwahaniaeth parhaol bod yn rhaid i ni wneud mwy na dim ond ariannu a gwerthuso rhaglenni addawol. Mae angen i ni greu consensws am y pethau sy'n gweithio a sefydlu mudiad i sicrhau bod pobl ifanc yn derbyn y cymorth gorau posib. A rhaid i ni gasglu a rhannu'r dystiolaeth sy'n dangos pa mor daer y mae angen i bethau newid.

Gyda'n gilydd gallwn yna newid nid dim ond y rhaglenni a'r ymarfer, ond hefyd y system sy'n siomi gormod o bobl ifanc.

I wneud hyn yn dda, byddwn yn dilyn pump o egwyddorion yn ein gwaith.



BYDD GENNYM DDEALLTWRIAETH DDOFN O FYWYDAU POBL IFANC

Byddwn yn gwrando ar bobl ifanc, gan gynnwys rhai gyda phrofiad o droseddu treisgar. Byddwn yn rhoi llais iddynt yn ein penderfyniadau. Bydd eu profiadau a'u barn yn goleuo ein dealltwriaeth, a gyda'n hymchwil, yn dylanwadu ar ein dewisiadau. Byddwn yn sicrhau bod pob person ifanc sy'n cyfrannu at y dystiolaeth a gasglwn a'r penderfyniadau a wnawn yn cael eu cefnogi a'u gwobrwyo'n iawn.

BYDDWN YN CANOLBWYNTIO AR YMYRRYD YN GYNNAR

Rydyn ni eisiau atal plant rhag cael eu hudo mewn i droseddu treisgar. Dyna pam fod ein ffocws ar ymyrryd yn gynnar i gefnogi plant a phobl ifanc – yn enwedig rhai rhwng 10 a 14 oed.

BYDDWN YN DARGANFOD BETH SY'N GWEITHIO

Byddwn yn gwerthuso, profi ac ymchwilio i'r ffyrdd mwyaf effeithiol o helpu plant a phobl ifanc ac o'u hatal rhag dod yn rhan o droseddu treisgar. Drwy gyd-gasglu a rhannu'r wybodaeth yma, byddwn yn helpu'r bobl mewn grym i wneud penderfyniadau gwell ac yn helpu pawb i ledaenu a defnyddio'r dulliau gorau.

BYDDWN YN CANOLBWYNTIO AR NEWID PARHAOL


Ni fyddwn yn hapus i wneud dim ond creu adroddiadau. Byddwn yn gweithio gydag unrhyw un sy'n poeni a malio am gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel i roi'r dulliau a'r systemau sydd wedi eu profi i fod yn gwneud gwahaniaeth ar waith yn ymarferol.

BYDDWN YN GWEITHIO AG ERAILL

Byddwn yn dod yn bartner â sefydliadau sy'n gweithio i gadw plant yn ddiogel rhag dod yn rhan o drais difrifol a dymunwn eu gweld yn gwneud penderfyniadau ar sail ar y wybodaeth orau sydd ar gael. Ni allwn gyflawni ein cenhadaeth ar ben ein hunain. Gyda'n gilydd, gallwn wella pethau.

Gwneud i newid ddigwydd

Byddwn yn gweithio dros weld newid sylweddol a pharhaol ym mywydau pobl ifanc, eu teuluoedd a'u cymunedau, drwy dri chyfrwng. Dyma sut yr awn ati i wneud hyn.



Byddwn yn ariannu gwaith da

Byddwn yn ariannu gwaith yng Nghymru a Lloegr sy'n ceisio atal plant a phobl ifanc rhag cael eu hudo mewn i fyd troseddu a thrais. Mae'n bwysig deall pam y byddwn yn gwneud hyn. Byddwn yn ariannu gwaith i ddysgu sut y mae'n gweithio. Bydd hyn yn ein helpu i greu consensws am beth sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth yma i weithio dros.

Themâu blaenoriaeth

Os ydyn ni am newid pethau, rhaid i ni gael ffocws. Dyna pam y bydd gymaint o'n cyllid yn canolbwyntio ar gyfres o themâu blaenoriaeth, un neu ddwy ar y tro. Gallent gynnwys trosiant staff mewn gofal cymdeithasol, gwahardd o'r ysgol, ecsbloetio gan droseddwr, neu waith ieuenctid datgysylltiedig. Sut y byddwn yn dewis ein themâu? Byddwn yn canolbwyntio ar bethau lle mae newid yn bosib, lle gallwn ddysgu o'r pethau sy'n gweithio'n barod a chydweithio â rhai sydd eisiau gwneud pethau'n wahanol.

Prosiectau ar sail lle

Mae llawer o'r gwaith gorau a fu'n cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel wedi digwydd drwy i gyrff a phobl leol weithio gyda'i gilydd. Gallwch weld y gwaith hwn o gwmpas y byd o Boston i Glasgow, o Chicago i Gaerdydd. Dyna pam y bwriadwn dargedu ardaloedd gyda lefelau uchel o droseddu gan bobl ifanc ac yn ariannu gwaith sy'n dod â chyrff lleol at ei gilydd i rannu gwybodaeth a chydgysylltu'r cymorth i blant a phobl ifanc. Pan fyddwn yn adnabod dulliau effeithiol "ar sail lle", byddwn yn lledaenu'r newyddion da ac yn ehangu i ardaloedd newydd.

Prosiectau wedi eu targedu

Weithiau bydd prosiectau addawol nad ydynt yn cyd-fynd â'n themâu blaenoriaeth na'n cyllid "ar sail lle". Ni fyddwn yn eu hanwybyddu. Os byddwn yn gweld prosiect a brofwyd i fod yn gwneud gwahaniaeth, byddwn yn ei ariannu i'w ehangu. Os gwelwn ymarfer a ddefnyddir yn eang ond sydd heb ei brofi eto, byddwn yn darparu'r adnoddau i'w werthuso ac i ddysgu ohono.

Partneriaethau ariannu

Bydd ein cyllid yn gwneud gwahaniaeth, ond gallwn gyflawni llawer mwy drwy weithio gyda'n gilydd. Dyna pam y byddwn yn chwilio i greu partneriaethau â chyllidwyr gyda dyheadau tebyg i ariannu gwaith gwych, dysgu mwy am y pethau sy'n gweithio a chydweithio i sicrhau newid.



Byddwn yn darganfod beth sy'n gweithio

Mewn geiriau syml, ni wyddom ddigon am sut orau i warchod plant a phobl ifanc rhag cymryd rhan mewn troseddu treisgar. Mae'r dystiolaeth yn y DU yn brin ac anodd dod o hyd iddi. Ar ben hyn, ychydig iawn a wyddom ac a ddeallwn am y trafferthion cymhleth sydd gan lawer o bobl ifanc, na sut i adeiladu ar eu cryfderau a'u talentau. Rhaid i hyn newid. Dyna pam y bydd ein ffocws ar ddysgu mwy am y pethau sy'n gweithio, ac i bwy, a rhoi'r wybodaeth yma yn nwylo'r bobl sy'n gwneud.

Gwerthuso syniadau da

Byddwn yn gwerthuso pob rhaglen a phrosiect a ariannwn. Y nod yw darganfod beth sy'n gweithio, i bwy, a pham. Byddwn yn gweithio'n agos â'r rhai sy'n derbyn cyllid gennym, a gyda'n gwerthuswyr, i ddylunio gwerthusiadau trylwyr a chymesur. Ond bydd hyn i gyd yn ofer os yw'r canlyniadau'n rhy anodd eu deall. Bydd popeth a ddysgwn yn hawdd cael gafael arno. Byddwn yn egluro ein canfyddiadau mewn iaith syml.

Gwneud y wybodaeth sydd gennym isoes yn fwy hygyrch

Rydyn ni eisiau ei gwneud yn llawer haws i chi ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch wrth benderfynu sut orau i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Byddwn yn crynhoi'r gwaith ymchwil presennol am y pethau sy'n gweithio ac yn ei wneud yn hawdd dod o hyd iddo, ei ddeall a'i ddefnyddio. Byddwn hefyd yn gweithio i ddeall pa ddata sydd ei angen ar bawb wrth wneud penderfyniadau a'i wneud yn haws ei ddarganfod a'i gymhwyso.

Deall bywydau pobl ifanc

Rydyn ni eisiau newid pethau i wneud plant a phobl ifanc yn fwy diogel. Mae gwybod pa raglenni ac ymarfer sy'n gweithio felly'n hollbwysig. Ond yr un mor bwysig yw dysgu mwy am fywydau'r rhai y ceisiwn eu helpu. Byddwn yn gweithio i ennill dealltwriaeth well o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Byddwn yn edrych ar effaith gwahaniaethu ac anghydraddoldeb, gan gynnwys hiliaeth a thlodi. Mae angen i ni gyd glywed eu lleisiau.

Pecyn Adnoddau'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid

Byddwn yn cyfuno gwybodaeth am ba mor effeithiol yw gwahanol ddulliau, ymarfer a raglenni i greu un adnodd ar-lein hygyrch. Bydd yr adnodd hwn yn helpu pobl i benderfynu pa wasanaethau neu ddulliau sydd fwyaf tebygol o gadw pobl ifanc yn ddiogel.



Byddwn yn gweithio dros newid

Byddwn yn sefydlu mudiad o bobl a sefydliadau ar draws Cymru a Lloegr sy'n teimlo'n gryf am gadw plant yn ddiogel rhag cael eu hudo mewn i fyd troseddu treisgar. Gyda'n gilydd byddwn yn lledaenu ac ehangu'r hyn a.

Ehangu'r dulliau sy'n gweithio

Pan ddangosir bod gweithgaredd yn effeithiol, byddwn am ei ehangu. Byddwn yn helpu sefydliadau i gryfhau eu strwythurau a'u capasiti mewnol, i fod yn barod i ehangu eu gwaith. P'un ai drwy ehangu eu gwasanaethau neu ailadrodd eu rhaglenni mewn ardaloedd newydd ar draws eu rhwydweithiau.

Lledaenu ymarfer gwyb

Pan ddangosir bod ymarfer yn effeithiol, byddwn yn gweithio ag eraill i'w lledaenu. Byddwn yn creu rhwydweithiau a threfniadau cydweithio rhwng pobl a sefydliadau sy'n teimlo'n gryf am lledaenu syniadau sy'n gweithio. Byddwn yn darparu'r dystiolaeth orau bosib am y pethau sy'n gweithio ac yn a'n cydweithio i lledaenu ymarfer gwyb.

Gwella'r system

Weithiau bydd angen newidiadau i'r system ei hun. Bydd angen i ni weithio gyda'n gilydd i newid y strwythurau, prosesau neu'r rhagfarn sefydliadol sy'n penderfynu sut a ble i dargedu adnoddau, a sut y cefnogir plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Lle mae dystiolaeth bod angen newid, byddwn yn gweithio gydag eraill i wneud i hynny ddigwydd. Weithiau bydd hyn yn anodd, a gallai ein gwneud yn amhoblogaidd. Byddwn bob tro'n ceisio rhoi plant a phobl ifanc yn gyntaf gan ofyn beth sydd ei angen i'w cadw'n ddiogel.

Rhwydweithiau a threfniadau cydweithio

Ni fydd dim o hyn yn bosib drwy weithio ar ein pen ein hunain. Dim ond drwy ddod at ein gilydd a gweithio dros newid y gall hyn ddigwydd. Byddwn yn sefydlu partneriaethau a threfniadau cydweithio gyda'r rhai sy'n teimlo'n gryf am warchod y plant sydd fwyaf mewn perygl ac sydd eisiau i'w penderfyniadau fod yn seiliedig ar y dystiolaeth orau. Bydd eu gwybodaeth, syniadau a'u rhwydweithiau'n dylanwadu ar ein gwaith a'n penderfyniadau. Ni allwn wneud plant yn fwy diogel ar ein pen ein hunain. Dim ond gyda'n gilydd y gallwn wneud gwahaniaeth.



Ein partneriaid

Mae'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid yn ymddiriedolaeth elusennol annibynnol wedi'i goruchwyllo gan Impetus, mewn partneriaeth â'r Sefydliad Ymyrryd Cynnar a Busnes Buddsoddi Cymdeithasol.



Impetus

Mae Impetus yn trawsnewid bywydau pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig drwy sicrhau eu bod yn derbyn y cymorth iawn i lwyddo yn yr ysgol, yn y gwaith ac mewn bywyd. Maen nhw'n dod o hyd i, ariannu a chefnogi'r elusennau mwyaf addawol sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc hyn, gan roi cyllid craidd a thrwy weithio law yn llaw â'u harweinwyr i'w helpu i ddod yn sefydliadau cryfach. Mewn partneriaeth â chyllidwyr eraill, maen nhw'n helpu eu helusennau i ehangu a dylanwadu ar wneuthurwyr polisi a phenderfyniadau fel bod pob person ifanc yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.

www.impetus.org.uk



Early Intervention Foundation

Mae'r Sefydliad Ymyrryd Cynnar yn hyrwyddo a chefnogi sefydliadau i ymyrryd yn gynnar ac effeithiol i wella bywydau plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o brofi canlyniadau gwael yn eu bywydau. Mae eu gwaith yn canolbwyntio ar y problemau datblygol all godi yn ystod bywyd plentyn, o'u genedigaeth hyd at 18 oed, gan gynnwys datblygiad corfforol, gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol a datblygiad eu hymddygiad.

www.eif.org.uk



Social Investment Business

Mae Busnes Buddsoddi Cymdeithasol yn rhoi cyllid i greu cymunedau tecach a gwella bywydau pobl. Maen nhw'n gwneud hyn drwy roi'r arian a'r cymorth sydd ei angen arnynt yn uniongyrchol, gan ddod yn bartneriaid i'w cefnogi'n effeithiol a defnyddio eu gwybodaeth i oleuo eu gwaith a dylanwadu ar eraill. Ers 2004 mae SIB wedi rhoi £400m o arian benthygiad a grant i dros 2,000 o sefydliadau ac wedi cefnogi mil yn fwy drwy raglenni.

www.sibgroup.org.uk



Y Rhwydwaith Beth sy'n Gweithio

Mae'r Gronfa Gwaddol Ieuenctid yn rhan o'r Rhwydwaith Beth sy'n Gweithio, menter sy'n gweithio i wella sut y mae llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill yn creu, rhannu a defnyddio tystiolaeth o ansawdd uchel wrth wneud penderfyniadau. Mae'n cefnogi gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon ar draws y sector cyhoeddus, ar lefel genedlaethol a lleol.



 youthendowmentfund.org.uk

 hello@youthendowmentfund.org.uk

 [@YouthEndowFund](https://twitter.com/YouthEndowFund)

The Youth Endowment Fund Charitable Trust

Registered Charity Number: 1185413
